

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 19 Hydref 2021

Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
--------------------	------	--------------

1	YMDDIHEURIADAU	Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Arweiniol dros yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol
2	DATGANIADAU O FUDDIANT	Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.
3	MATERION BRYD	Ni chodwyd unrhyw fater bryd.
4	COFNODION	PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.
5	SYSTEM BRYNU DDEINAMIG FFRAMWAITH DYLUNIO GRAFFEG AC ARGRAFFU	PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo'r rhestr o gyflenwyr sydd wedi cael eu monitro ar gyfer y Fframwaith System Brynu Ddynamig newydd fel y'i manylir yn yr adroddiad.
6	DULL ARFAETHEDIG I DENDRO AR GYFER CONTRACT CAM 2 GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF CYNGOR SIR DDINBYCH, YSTÂD DDIWYDIANNOL COLOMENDY, DINBYCH	PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn – (a) Cymeradwyo'r ymarfer tendro arfaethedig fel y manylir yn yr adroddiad, ac yn (b) cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.
7	DYFARNU CONTRACT A NEWIDIADAU POLISI AR GYFER CONTRACT NEWYDD I REOLI EIN CANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF	PENDERFYNWYD bod - (a) Y Cabinet yn awdurdodi dyfarnu'r contract i'r Cynigydd A Ffafir sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Gwerthuso Tindr Caffael ar y cyd (Atodiad 1 o'r adroddiad) sydd wedi arddangos eu bod wedi cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd ac yn nodi bod y contract yn cael ei ddyfarnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr awdurdod arweiniol;

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 19 Hydref 2021

Agenda Item No	Topic	Decision
		<p>(b) <i>aelodau yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau ac yn nodi y bydd yn cael ei ddiweddarau ar ôl dyfarnu'r contract;</i></p> <p>(c) <i>Polisi Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar y Cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Atodiad 2 o'r adroddiad) yn cael ei fabwysiadu o ddyddiad dechrau'r contract;</i></p> <p>(d) <i>Arwystlon Gwastraff Adeiladu DIY (Atodiad 3 o'r adroddiad) yn cael eu mabwysiadu yn ffurfiol o ddyddiad dechrau'r contract;</i></p> <p>(e) <i>system archebu ar gyfer Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar y cyd yn cael ei ddatblygu'n fewnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn cael ei fabwysiadu'n barhaol;</i></p> <p>(f) <i>yr adroddiad yn mynd yn ôl i Bwyllgor Craffu Partneriaethau er mwyn adolygu blwyddyn gyntaf o weithrediad y contract newydd, a</i></p> <p>(g) <i>y Cabinet yn nodi bod angen cytuno ar Gontract Awdurdodau ar y Cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych, gan ofyn i'r Gwasanaethau Cyfreithiol i gefnogi'r gwasanaeth gyda pharatoi'r contract hwn.</i></p>
8	ADRODDIAD CYLLID	<p>PENDERFYNWYD y byddai'r Cabinet yn –</p> <p>(a) <i>nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, ac yn</i></p> <p>(b) <i>cymeradwyo defnyddio'r Grant Cynnal a Chadw Ysgolion sydd wedi'i ddyfarnu i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru, fel yr argymhellir gan y Grŵp Buddsoddi Strategol (a fanylir arno yn Adran 6.7 o'r adroddiad ac Atodiadau 5, 6 a 7 o'r adroddiad).</i></p>

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 19 Hydref 2021

Agenda Item No	Topic	Decision
9	RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET	PENDERFYNWYD <i>nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.</i>